## Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 1

## Cofnodion y cyfarfod

**Dyddiad:** Dydd Mercher 31 Awst 2022

**Yn bresennol:**

**Cadeirydd:** Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

**Aelodau:** Matt Downie (Crisis), Liz Davies QC (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Caerfyrddin), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Huw Charles (Llywodraeth Cymru), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru).

**Hefyd yn bresennol:** Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis).

**Ymddiheuriadau:** Sam Parry (Cyngor Conwy), Sarah Rhodes (Llywodraeth Cymru).

### 1. Croeso, cyflwyniadau a throsolwg o'r panel

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r panel i gyfarfod agoriadol y Panel Adolygu Arbenigol.

Gwnaeth pob aelod o'r panel gyflwyno eu hunain gan roi eu henw a'u galwedigaeth, a datgan eu harbenigedd os yw’n berthnasol i waith y panel.

Rhoddwyd trosolwg i'r panel, gan ddisgrifio sut mae gwaith sydd ar ddod yn bwysig ac yn gyffrous. Mae gan holl gyfarfodydd y dyfodol thema ac agenda clir fel y'i disgrifir yn y cynllun gwaith, er mwyn sicrhau na fydd y sgwrs yn gwyro i themâu eraill i ffwrdd o'r drafodaeth a gynlluniwyd.

Canlyniad y panel yw datblygu argymhellion ar ffurf adroddiad i Weinidogion Cymru dros ddiwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r holl feysydd cyfreithiol perthnasol lle mae gan Lywodraeth Cymru gwmpas i gael pwerau. Y bwriad yw bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio adroddiad argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol ochr yn ochr â chanlyniadau'r broses Papur Gwyrdd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y panel fod y Papur Gwyrdd yn ymrwymiad ar gyfer 2022, sy’n cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer 2025.

| Aelod(au'r) Panel | Gweithred | Amserlen |
|---|---|---|
| Hannah Fisher / Huw Charles | Y newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mhob cyfarfod o’r panel. | Parhaus |

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r panel wedi ymrwymo i ateb y ddau gwestiwn cyffredinol hyn:

- Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn atal digartrefedd i’r graddau mwyaf posibl?
- Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym i ddatrys eu digartrefedd?

**2. Cyflwyniad i’r cylch gorchwyl**

Cyflwynodd Jordan y cylch gorchwyl i'r panel, gan dwyn sylw at bwyntiau allweddol i'w trafod. Cadarnhaodd y bydd argymhellion yn cael eu trafod, fel panel ym mhob cyfarfod ar thema, i roi atebion i'r ddau gwestiwn cyffredinol; pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn atal digartrefedd i’r graddau mwyaf posibl, a pha newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym i ddatrys eu digartrefedd. Rhoddwyd disgrifiad ar sut y byddai'r 12 mis nesaf yn rhedeg, gan gynnwys mewnbwn gan Arbenigwyr drwy Brofiad, ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chyfarfodydd is-banel i'w cynnal y tu allan i'r cyfarfodydd panel misol.

**3. Trafod y cylch gorchwyl a chytuno arno**

Ar ôl y cyflwyniad, cafodd y panel gyfle i drafod y cylch gorchwyl yn fanwl. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Annog addasiadau wrth i ni fynd ymlaen.
- Bod mor ysbrydoledig â phosibl.
- Er y cafwyd trafodaeth fer, mae angen trafodaeth bellach i benderfynu ar y llwybr i ddangos tryloywder yn yr hyn y mae'r panel yn ei wneud. Enghraifft o dryloywder oedd cyfathrebu trwy flog neu fideo byr gan y Cadeirydd i gysylltu â’r dasg, gan esbonio sut y byddem yn mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn cyffredinol.
- Awgrymwyd bod argymhellion yn allweddol pan nad deddfwriaeth yw’r ateb o bosibl.
- Mae gan ddiwygiad cyfreithiol y potensial ar gyfer eithriad mesurau (carve-out) ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, wrth i'r gyfraith yrru penderfyniadau go iawn wrth iddi fanylu ar fwriad polisi.
- Bwriad polisi ac egwyddorion i fod yn glir.
- Mae angen manylion mewn perthynas â digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cynllun ar gyfer hyn.
- Mae gwrando ar dystiolaethau ac ymgysylltu yn bwysig i helpu addysgu a hysbysu, ymgynghori â'r rheiny sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd iddynt gael llais yn y broses hon. Cafwyd sgwrs am wahodd arbenigwyr, neu siaradwyr dan arweiniad profiad, i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr argymhellion, yn benodol mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd panel yn y dyfodol. Trafodwyd manteision ac anfanteision hyn, yn bennaf am bwy i’w gwahodd. Roedd y panel yn gytûn, er efallai

na eir ar drywydd gwahodd unigolion penodol i gyfarfodydd panel ar thema, byddai grwpiau ag arbenigeddau penodol yn cael eu hymgynghori â hwy drwyddi draw, ac ar wahân, er mwyn bod mor gytbwys â phosibl.

- Mae angen eglurder ynglŷn â pha ddeddfwriaeth Gymreig sydd o fewn y cwmpas i'r panel ystyried.
- Eglurder ar yr hyn sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Senedd Cymru.
- Awgrymwyd y gallai adran gyfreithiol Senedd Cymru godi cwestiynau ar 'pam' fod cyfraith newydd yn cael ei hystyried. Felly, mae angen i'r cylch gorchwyl ddatgan yn glir beth yw'r materion cyfredol a pham mae angen ystyried cyfraith newydd.
- Caiff y cylch gorchwyl ei ddiwygio er mwyn cyd-fynd â sylwadau'r panel.

| Aelod(au'r) Panel | Gweithred | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer / Abi Renshaw | Gwaith â'r Cadeirydd ar hyrwyddo gwaith y panel e.e. recordio blog neu fideo byr er mwyn cysylltu â'r dasg, gan ofyn sut rydym yn trafod y ddau gwestiwn cyffredinol. | Parhaus |
| Jordan Brewer | Crisis i weithredu ar adlewyrchu adborth aelodau'r panel i mewn i gylch gorchwyl. | 02.09.22<br>Aelodau'r panel i ymateb ag adborth erbyn 16.09.22 |
| Jordan Brewer / Abi Renshaw | Crisis i roi manylion am ymgysylltu rhanddeiliaid trwy gynhyrchu papur strategaeth. | Wythnos yn dechrau 19.09.22 |
| Jordan Brewer / Abi Renshaw | Crisis i ychwanegu dogfennau atodol at y wefan:<br>• papurau polisi manwl,<br>• cynllun ymgynghori,<br>• papur egwyddorion sy'n manylu ar sut y bydd y panel yn ymddwyn mewn perthynas â'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud,<br>• Papur Arbenigwyr drwy Brofiad. | Papurau priodol yn cael eu huwchlwytho ar ôl pob cyfarfod |

## 4. Cyflwyniad i'r cynllun gwaith

Cyflwynodd Jordan y cynllun gwaith i'r panel, gan dynnu sylw at drefn arfaethedig themâu allweddol fesul cyfarfod i'w drafod.

## 5. Trafod y cynllun gwaith a chytuno arno

Cychwynnodd y panel ar drafodaeth ar y cynllun gwaith a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Trafodwyd trefn themâu fesul cyfarfod, gan gynnwys pam yr ymddangosodd y themâu yn y drefn a gynigiwyd ac a ddylid ad-drefnu unrhyw un.

- Trafodaeth ar leoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y cynllun gwaith, a oedd yn cael ei drafod yn y cyfarfod mwyaf addas. Cytunodd y consensws i'w gadw yn y cynllun gwaith yn y drefn a fwriadwyd.
- A oedd profion cymhwysedd yn gofyn am drafodaeth hwy heb unrhyw themâu eraill, fel y gellir eu hystyried yn rhy swmpus i'w trafod â phynciau eraill. Awgrymwyd yn bendant ei fod angen archwilio ar ôl Covid oherwydd ei fod yn hynod gymhleth yn gyfreithiol.
- Cododd y panel gwestiynau penodol o fewn rhai themâu, gan ofyn i'r Cadeirydd ym mha gyfarfodydd y byddai'r rhain yn cael eu trafod. Darparwyd ateb i'r holl ymholiadau a chytunwyd bod trefn bresennol cyfarfodydd ar themâu yn addas. Cadarnhawyd pa gyfarfodydd ar thema y byddai pynciau penodol yn perthyn iddynt, i sicrhau aelodau'r panel na fyddai unrhyw bynciau'n cael eu methu.
- Ailadroddwyd, er mwyn trafod y themâu yn ystyrlon ym mhob cyfarfod, mae llawer o waith i'w wneud y tu allan i'r cyfarfodydd panel hyn i roi cyfiawnder i bynciau, mae angen sesiynau ychwanegol.
- Gofynnwyd y cwestiwn i'r panel beth hoffent ei gael allan o'r rôl bydd Arbenigwyr drwy Brofiad yn ei chwarae drwy gydol y 12 mis. Gofyn i'r panel am gyfeiriad clir ar ddisgwyliadau. Disgwyliadau'r panel oedd y byddai'n darparu gwybodaeth ar gyfer gwaith diweddarach. I roi cyfiawnder i'r pynciau, byddai angen gwneud gwaith y tu allan i'r cyfarfodydd.
- Awgrymwyd ailgasglu ar ôl y tri chyfarfod cyntaf, i wirio a myfyrio ar yr hyn a ddywedwyd hyd yma.
- Bellach mae gan y panel afael cadarn ar ei bwrpas o gael ei roi at ei gilydd, a chyflwyno ar y cyd newidiadau arfaethedig i'r cynllun gwaith cyn y cyfarfod nesaf ar gyfer y 12 mis nesaf, gan gynnwys cytuno'n swyddogol ar y themâu sydd ar y gweill a'r drefn fesul cyfarfod.
- Trafodwyd y gellir cael arweiniad thematig o'r panel ym mhob cyfarfod a fydd yn cael ei drafod a'i drin yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y cynllun gwaith yn cael ei ddiwygio a'i ddosbarthu ag argymhellion y panel cyn y cyfarfod nesaf.

| Aelod(au'r) Panel | Gweithred | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer | Crisis i'w rannu papur gan Gymorth i Ferched Cymru â'r panel, heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus. | Gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf |
| Abi Renshaw | Trefnu ailgasglu cyn y Nadolig, ar ôl y trydydd cyfarfod, i gael cyfle i wirio a myfyrio ar yr hyn a ddywedwyd hyd yma. | Parhaus |
| PAWB | Cytuno ar yr arweinwyr thematig ar y panel ar gyfer pob cyfarfod. | 30.09.22, i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y panel |
| Jordan Brewer | Crisis i weithredu ar adlewyrchu adborth aelodau'r panel i mewn i'r cynllun gwaith. | 02.09.22<br>Aelodau'r panel i ymateb ag adborth erbyn 16.09.22 |

## 6. Cyfleoedd Arbenigwyr drwy Brofiad a'u hymgysylltu

Rhoddodd Katie gyflwyniad i'r panel am brosiect Arbenwigwyr drwy Brofiad Cymorth Cymru. Esboniodd Katie sut olwg fydd ar y gwaith yn benodol ar gyfer gwaith y panel a pha fathau o gyfleoedd ymgysylltu fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd y cyfleoedd a gynllunnir hyd ddiwedd 2022 yn cynnwys digwyddiadau wyneb-yn-wyneb ac arolwg ar-lein.

Cafodd y Prosiect Arbenigwyr drwy Brofiad ei sefydlu i rymuso pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd a gwasanaethau cymorth tai i ddylanwadu ar bolisïau ac ymarfer ledled Cymru. Caiff y prosiect ei gydlynu gan Cymorth Cymru, y corff sy'n cynrychioli darparwyr gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd yng Nghymru. Mae'r Oak Foundation a Llywodraeth Cymru yn ariannu'r prosiect yn rhannol.

Argymhellodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyfleoedd i bobl sydd â phrofiad byw ddylanwadu ar bolisi, â chefnogaeth Julie James MS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Cynllun ar gyfer ymgysylltu:

- Tri chyfle ym mis Medi. Dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb, un yn y Gogledd ac un yn y De ac arolwg ar-lein. Caiff yr holl adborth ei gasglu'n ddienw a'i ddefnyddio i lunio adroddiad ar gyfer y panel ar ei gyfer ei gyfarfod nesaf ar 30 Medi.
- Cyfnod myfyriol ddiwedd y flwyddyn, er mwyn gwneud yn siŵr y clywir gan bob llais.
- Bydd cyfleoedd a ddyluniwyd i ymgysylltu'r rheiny â phrofiad byw o ddigartrefedd, profiad byw o wasanaethau cymorth tai a gweithwyr y rheng flaen.
- Sesiwn ehangach ddiwedd y flwyddyn ym mis Rhagfyr, gan ymgysylltu â Gogledd a De Cymru.

Ar ôl y cyflwyniad, cafodd y panel gyfle i drafod Arbenigwyr drwy Brofiad mewn mwy o fanylder. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Gwneud yn siŵr o adlewyrchu barn y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, cydnabod grwpiau ar y cyrion, cytuno bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig ac i'r hystyried a'u hadolygu ym mhob cyfarfod.
- Opsiynau tâl i'r rheiny sy'n rhannu eu profiadau ac yn rhoi o'u hamser. Ymhlith y digwyddiadau wyneb-yn-wyneb bydd cinio bwffe, byddai arolwg ar-lein yn wobr raffl. Yn awyddus i ddod o hyd i ddatrysiad â'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn peidio ag effeithio ar y rheiny sy'n hawlio budd-daliadau.
- Ar sut i strwythuro cwestiynau'r arolwg. Cytunodd y panel i gadw'r cwestiynau'n agored ac yn eang.
- Bydd Crisis hefyd yn cynnull cyfarfodydd ymgynghori cyn cyfarfodydd panel, i archwilio themâu yn fanylach a chyfrannu at drafodaethau panel craidd. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd safbwyntiau gan grŵp ehangach o randdeiliaid y tu hwnt i aelodaeth y panel craidd.
- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru eu bod yn dymuno i Arbenigwyr drwy Brofiad gyfrannu at y Papur Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Bydd y panel yn ystyried ac yn ymgorffori canlyniadau gwaith ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio'n broffesiynol i ddod â digartrefedd i ben. Trafodwyd y byddai'r panel yn cefnogi gwaith Arbenigwyr drwy Brofiad, trwy gynnig adborth o ran ymgysylltiad arfaethedig a thrwy rannu manylion am ddigwyddiadau â'u rhwydweithiau. Gwnaethpwyd cais i rannu data i gefnogi datganiadau gwir yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

| Aelod(au'r) Panel | Gweithred | Amserlen |
|---|---|---|
| Katie Dalton | Rhannu cwestiynau'r arolwg a gofynnir i'r Arbenigwyr drwy Brofiad ag aelodau'r panel cyn eu cylchredeg. | Cyn y cyfarfod nesaf |
| Jennie Bibbings | Cynnig cefnogaeth i Katie Dalton yn Cymorth Cymru â chyrhaeddiad ac ymgysylltiad ar gyfer eu corff o waith. | Parhaus |
| Jordan Brewer | Ymgysylltu â Skylight De Cymru mewn perthynas â mewnbwn gwirfoddolwyr ac aelodau, gan drafod y diweddaraf am dâl. | Cyn y cyfarfod nesaf |
| Hannah Fisher / Huw Charles | Rhannu'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru am dâl â Katie Dalton. | Cyn y cyfarfod nesaf |
| Katie Dalton | Creu papur byr ar Arbenigwyr drwy Brofiad ar gyfer aelodau'r panel. | Parhaus |
| PAWB | Rhannu data ac adnoddau perthnasol ar atal a allai ddarparu gwybodaeth ar gyfer trafodaeth cyn y cyfarfod nesaf ar 30/09/22. | Cyn y cyfarfod nesaf |

**7. Cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y mis nesaf**

Er mwyn cadw'r cyfarfod yn rhedeg ar amser, ni chafodd y camau y cytunwyd arnynt eu hailadrodd. Sefydlwyd y camau gweithredu yn ystod y cyfarfod a'u diwygio'n uniongyrchol ar ôl y cyfarfod gan Jordan ac Abi y diwrnod canlynol. Cafodd rhestr pwyntiau bwled o gamau gweithredu eu dosbarthu i holl aelodau'r panel ddydd Gwener 2 Medi 2022, mae'r rhestr pwyntiau bwled bellach wedi'i rhannu ar draws y cofnodion hyn yn dablau fesul adran yn yr agenda.

Bydd y panel yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl a chynllun gwaith diwygiedig yn y cyfarfod nesaf, â'r dogfennau diwygiedig yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw i'w hystyried ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol bersonol.

**Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Zoom ddydd Gwener 30 Medi 2022.**